# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

*Darpariaeth atodol*

### 17 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm

Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) camau sydd i'w cymryd cyn i gwricwlwm gael ei fabwysiadu o dan y Rhan hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch camau sydd i'w cymryd er mwyn penderfynu a yw cwricwlwm arfaethedig yn addas ar gyfer ei fabwysiadu);

(b) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid mabwysiadu cwricwlwm o dan y Rhan hon;

(c) amgylchiadau ychwanegol y mae rhaid diwygio cwricwlwm mabwysiedig odanynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Darpariaeth atodol. (See end of Document for details)*

## 18 Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch crynodebau cwricwlwm

Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn crynodeb o gwricwlwm mabwysiedig a gyhoeddir o dan y Rhan hon;

(b) ynghylch cyhoeddi crynodeb o gwricwlwm mabwysiedig (gan gynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid ei gyhoeddi, a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid ei gyhoeddi).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I4** A. 18 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(a), **Atod.**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Darpariaeth atodol.